***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1583 (Cy.158)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *18 Mehefin 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Mehefin 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Mehefin 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) (Diwygio) 2008; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 19 Mehefin 2008.

### Diwygio

**2.** Yn rheoliad 17 o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008(**3**) dileer yr ail gyfeiriad at "yr Ysgrifennydd Gwladol" ac yn ei le rhodder "Weinidogion Cymru".

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

18 Mehefin 2008

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2008/1090 (Cy.116).

## EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 ("y prif Reoliadau") drwy ddisodli'r ail gyfeiriad yn rheoliad 17 o'r prif Reoliadau at "yr Ysgrifennydd Gwladol" â "Weinidogion Cymru".